Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | P K Jones |
| W G Lewis | P Lloyd | P M Matthews |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Phil Holmes | Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James a/ac M A Langstone

---

## 14 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Personol - Cofnod Rhif 16 - Coridor yr afon - Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Abertawe.

## 15 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 10 Awst 2017 fel cofnod cywir.

## 16 Coridor yr Afon - Cylch gorchwyl y Gweithdy. (Llafar)

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas ddiweddariad llafar i'r pwyllgor am y sefyllfa gyfredol o ran coridor yr afon.

Dywedodd fod y pwyllgor eisoes wedi derbyn cyflwyniad ar y pwnc hwn a oedd wedi rhoi'r manylion cefndir iddynt ynghyd â chyd-destun y cynigion er mwyn parhau i ailddatblygu'r ardal. Dywedodd fod y CDLl sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cynnwys cyfeiriadau cryf at yr ardal.

Amlinellodd y cynlluniau i gynnal gweithdy ym mis Medi i drafod amrywiol faterion sy'n ymwneud â'r coridor megis:

- Pa gamau gweithredu/adnoddau y mae eu hangen;
- Materion cyflwyno;
- Manylion yr astudiaethau blaenorol yr ymgymerwyd â hwy;
- Hanes cefndir a threftadaeth yr ardal;
- Cynnydd hyd yma;
- Symudiadau ar y ffyrdd/beicio;
- Bioamrywiaeth;
- Cynigion ailddatblygu yn y dyfodol (Penderyn etc);
- Materion perchnogaeth tir/yr afon.

Cyfeiriodd at y sesiwn yr oedd yn gobeithio y byddai'n cynnwys aelodau, swyddogion, rhanddeiliaid/sefydliadau partner amrywiol lle byddai'r holl faterion amrywiol a amlinellir uchod yn cael eu trafod.

Trafododd aelodau fuddion ymgymryd ag ymweliad safle yn yr ardal, cyn cynnal y gweithdy, a gofynnwyd a ellid cylchredeg unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ar gael am yr ardaloedd a amlinellir uchod a'r cylch gorchwyl ar gyfer y gweithdy iddynt cyn y gweithdy.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ag aelodau'r Pwyllgor i drefnu ymweliad safle ag ardal coridor yr afon.

## 17 Creu Parth i Gerddwyr ar Stryd y Gwynt. (Llafar)

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas ddiweddariad llafar i'r pwyllgor ynghylch cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr awdurdod ar y cyd â BID Abertawe wrth fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer troi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr.

Dywedodd fod ymgynghorwyr bellach wedi'u penodi i ddatblygu'r syniadau a'r awgrymiadau o'r ymarfer ymgynghori blaenorol a datblygu cynigion cadarn ar y cyd ag aelodau/busnesau lleol/rhanddeiliaid perthnasol a sefydliadau partner etc.

Dywedodd fod yr ymgynghorwyr wedi trefnu sesiwn galw heibio yn Stryd y Gwynt i bob parti â diddordeb ar 31 Gorffennaf (lleoliad i'w gadarnhau). Byddai porth ar-lein ar gael hefyd drwy gydol yr haf ar wefan y cyngor a fyddai'n amlinellu'r opsiynau posib ar gyfer yr ardal ac yn gwahodd sylwadau gan bartïon â diddordeb ynghyd â'u barn.

Trafododd yr aelodau fuddion ymgymryd ag ymweliad safle'n dilyn y digwyddiad galw heibio a chyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas y byddai'n cylchredeg manylion y digwyddiad wedi i'r dyddiad gael ei drefnu'n derfynol.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ag aelodau'r pwyllgor i drefnu ymweliad safle ag ardal Stryd y Gwynt.

**18 Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Amlinellodd y Cadeirydd gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2018/2019.

Awgrymodd y dylid ychwanegu'r pynciau canlynol at yr agendâu ar gyfer y cyfarfodydd a restrir isod:
16 Awst - Adborth o ymweliadau safle a'r Cerbydlu Gwyrdd
20 Medi - Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer
18 Hydref - Strategaeth Cludiant a Thai Cydweithredol

**Penderfynwyd** y dylid cytuno ar y cynllun gwaith gyda'r diwygiadau a awgrymwyd uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.46 pm

**Cadeirydd**